




Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru  
South Wales  
Fire and Rescue Service



## Sut i wneud cynllun dianc ar gyfer eich cartref

- 1 Lluniwch gynllun o'ch cartref. Gwnewch yn siwr eich bod chi'n dangos yr holl ddrysau a ffenestri.
- 2 Edrychwch ym mhob ystafell. Nodwch ar eich cynllun ddwy ffordd y gallech chi fynd allan.
- 3 Dylai'r holl ffenestri a drysau agor yn rhwydd. Dylech allu eu defnyddio i fynd allan.
- 4 Gofalwch fod y grisiau a'r rhodfeydd yn glir a heb unrhyw rwystrau.
- 5 Gofalwch fod larymau mwg yn eich cartref a'u bod yn cael eu profi unwaith yr wythnos.
- 6 Dewiswch fan cyfarfod y tu allan. Dylai fod o flaen eich cartref. Dylai pawb gytuno y byddant yn cyfarfod yn y lle hwn os bydd tân.
- 7 Dysgwch eich cyfeiriad ar eich cof a gwnewch yn siwr bod modd gweld rhif eich t neu adeilad o'r stryd.
- 8 Trafodwch eich cynllun gyda phawb yn eich cartref.
- 9 Cofiwch o bydd tân gyda chi rhaid i chi alw 999 a gofynnwch am y Gwasanaeth Tân
- 10 Ymarferwch eich dril tân cartref!



## Defnyddiwch drefn noswylio

- Diffoddwch a thynnwch blygiau offer trydanol
- Sicrhewch fod eich stof wedi'i diffodd
- Peidiwch â gadael y peiriant golchi, y sychwr dillad neu'r peiriant golchi llestri ymlaen dros nos
- Diffoddwch wresogyddion
- Diffoddwch ganhwyllau yn iawn
- Diffoddwch bob sigarét a dylech chi bob amser wagio blychau llwch. Arllwyswch ddwr dros weddillion y sigarêts cyn eu rhoi yn y bin y tu allan.
- Rhowch gardiau tân o gwmpas tanau agored. Peidiwch â rhoi rhagor o gaed ar y tân cyn i chi fynd i'r gwely.
- Sicrhewch fod yr holl lwybrau dianc yn glir
- Cadwch allweddi drysau a ffenestri lle gall pawb ddod o hyd iddynt
- Ewch â'ch allweddi a'ch ffôn symudol gyda chi er mwyn sicrhau y gallwch chi ddianc os oes argyfwng
- Caewch yr holl ddrysau - gall gadw'ch llwybr dianc yn rhydd rhag mwg ac atal tân rhag lledu.